**Y Gwir Anrh/Rt Hon Mark Drakeford AS/MS**
**Prif Weinidog Cymru/First Minister of Wales**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Huw Irranca-Davies AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

6 Hydref 2023

Annwyl Huw,

Yn fy ymddangosiad gerbron eich pwyllgor ar 18 Medi, cytunais y byddwn yn ysgrifennu atoch i gadarnhau'r dull strategol y mae Llywodraeth Cymru am ei ddilyn yn awr mewn perthynas â'r Undeb Ewropeaidd.

Ers i'r DU ymadael â'r Undeb Ewropeaidd ddechrau 2020, cynnal proffil Cymru fel gwlad Ewropeaidd fu'r nod. O 2016 ymlaen, ailadroddwyd y neges dro ar ôl tro fod Cymru yn wlad Ewropeaidd, a bydd yn parhau felly – nid yw’r ffaith a ydyw yn rhan o'r UE neu beidio yn newid hyn. Mae Llywodraeth Cymru o'r farn ei bod yn debygol y bydd y DU yn datblygu ffurf mwy cynhyrchiol ar Brexit, a byddai'n ddymunol pe bai'n gwneud hynny. Wrth i hynny ddigwydd, dylai Llywodraeth Cymru fod mewn sefyllfa dda i elwa i'r eithaf mewn ffyrdd ymarferol ar y manteision a ddaw yn sgil gwella'r berthynas.

Rydym wedi ymrwymo yn ein Rhaglen Lywodraethu i gadw ein swyddfa ym Mrwsel ar gyfer yr union ddiben hwn. Yn ystod yr 20 mlynedd cyn Brexit, gweithiodd Llywodraeth Cymru i feithrin gwerth yn yr UE fel cyfranogwr ymroddedig. Ers Brexit, rydym wedi mynd ati gydag ymdrech ac egni i gadw'r gwerth hwnnw. Mae Swyddfa Brwsel yn ein helpu i gynnal cysylltiadau ac yn sicrhau ein bod yn cael yr wybodaeth ddiweddaraf am y datblygiadau hynny yn yr UE y mae gennym fuddiant ynddynt o hyd.

I gyd-fynd â'r gwaith hwn, penodwyd Derek Vaughan i weithredu fel cynrychiolydd, a chafodd fandad gan Lywodraeth Cymru i gynnal perthnasoedd lefel uchel ym Mrwsel. Mae Derek wedi tynnu ar ei brofiad a'i rwydweithiau i sicrhau bod Cymru yn dal i fynnu sylw ein rhanddeiliaid gan gynnwys Aelodau o Senedd Ewrop, y Comisiwn a phenderfynwyr a llunwyr barn eraill. Credwn fod gwaith Derek, ochr yn ochr â'n swyddogion eraill, wedi bod o fudd gwirioneddol i broffil Cymru ar adeg pan fo delwedd y DU yn gyffredinol, a bod yn ddi-flewyn ar dafod, wedi dechrau llithro.

Rwyf innau wedi ei gwneud hi'n flaenoriaeth i ymweld â Brwsel unwaith y flwyddyn o leiaf ac rwyf wedi annog y Gweinidogion eraill i ymweld pan fydd cyfleoedd defnyddiol yn codi.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Mark.Drakeford@llyw.cymru
Correspondence.Mark.Drakeford@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn y Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Roeddwn yn falch o weld Gweinidog yr Economi yn annerch Pwyllgor Polisi Rhanbarthol Senedd Ewrop yn gynharach eleni. Rwyf o blaid gweld aelodau – waeth pa blaid y maent yn perthyn iddi – yn ymweld â Brwsel a mannau eraill fel rhan o'u gwaith. Fel gwlad, mae'n rhaid inni wneud popeth yn ein gallu i anfon arwyddion cadarnhaol ynglŷn ag ymwneud Cymru ag Ewrop.

Y tu hwnt i Frwsel, rydym yn bwrw ati i feithrin partneriaethau ledled Ewrop a'u cynnal. Ym mis Awst, er enghraifft, ymwelais â Llydaw ar gyfer mynd i gyfarfod dwyochrog ac i ymgysylltu â'r Fforwm Celtaidd sydd newydd ei sefydlu rhwng y gwledydd a'r rhanbarthau. Rydym yn cymryd rhan mewn rhwydweithiau rhanbarthol aml-aelod eraill megis Cynhadledd y Rhanbarthau Morol Ymylol (CPMR), Menter Vanguard (y mae Cymru yn ei harwain ar hyn o bryd), ac mae gennym broffil uchel yn y gymuned “Ieithoedd Llai eu Defnydd”. Mae gennym sawl perthynas ddwyochrog â gwledydd a rhanbarthau gan gynnwys Iwerddon, Llydaw, Gwlad y Basg, Fflandrys ac eraill. Yn ogystal â'r gynrychiolaeth ym Mrwsel, mae gennym swyddogion sydd wedi'u lleoli yn Nulyn, Paris a Berlin sy’n gweithio ar fasnach a materion eraill ochr yn ochr â'u cyfeillion yn llysgenadaethau'r DU. Rydym yn annog ymweliadau arwyddocaol â Chymru o'r tu allan gan ein partneriaid a'n ffrindiau Ewropeaidd, ac yn derbyn ymweliadau o'r fath, yn rheolaidd iawn. Rydym yn annog masnachwyr i ddatblygu allforion i Ewrop, a'u cynnal, ac mae gan Gymru bolisi cadarn o hyd o fod yn agored i fuddsoddwyr.

Aeth perthynas Llywodraeth y DU â'r UE drwy gyfnod hynod negyddol a niweidiol. Yn fwy diweddar, mae Fframwaith Windsor a sicrhau mynediad i'r DU at y rhaglen Horizon yn gamau cymedrol i'r cyfeiriad cywir. Fodd bynnag, mae'n rhaid imi roi ar gofnod fater sy'n peri gofid imi, sef y ffaith bod arloeswyr ac ymchwilwyr wedi colli sawl blwyddyn o fynediad at Horizon o ganlyniad i sefyllfa wan Llywodraeth y DU.

Hoffwn weld perthynas rhyngom a'r UE sy'n mynd cryn dipyn ymhellach. Hoffai Llywodraeth Cymru, er enghraifft, gael mynediad at raglen Erasmus yr UE. Roeddem yn arbennig o siomedig fod Llywodraeth y DU wedi gwrthod cynnwys hyn yn ei chytundeb ymadael. Rydym yn gobeithio y byddwn yn cael cymryd rhan yn Erasmus a rhaglenni eraill ymhen rhai blynyddoedd. Yn y cyfamser, mae ein rhaglen Taith yn hwyluso trefniadau cyfnewid i'r ddau gyfeiriad ar gyfer pobl ifanc ledled Ewrop.

Mae hefyd yn destun gofid inni fod Llywodraeth y DU yn ymddangos yn benderfynol o gefnu ar fesurau sy'n deillio o'r UE sy'n diogelu ein dŵr a'n hamgylchedd. Mae Llywodraeth Cymru yn benderfynol, yn y meysydd hynny lle y mae gennym y pwerau, o gynnal lefelau diogelu'r amgylchedd ar gyfer ein tir, ein dŵr a’n haer sy'n cyfateb i rai'r UE o leiaf. Yn y dyfodol, gobeithiwn weld Llywodraeth y DU a fydd yn cynnig negodi â'r UE ar gytundeb milfeddygol i hwyluso symud da byw a bwyd ar draws ein ffiniau allanol.

I grynhoi, mae Llywodraeth Cymru yn meithrin perthynas gadarnhaol i Gymru ag Ewrop. Credwn fod hyn yn ffordd o fuddsoddi yn y dyfodol. Rydym yn croesawu cefnogaeth y Pwyllgor i'r gwaith hwn ac, pan fydd y cyfle yn codi, rydym yn annog pob aelod i gyfrannu at gynnal cysylltiadau cadarnhaol ag Ewrop.

Yn gywir,

**MARK DRAKEFORD**